

**Ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales i
Ymgynghoriad Ar y Cyd Llywodraeth Cymru / Defra o'r enw:**

***'Manteisio i'r Eithaf ar Bob Diferyn, Ymgynghoriad ar Ddiwygio'r System
Rheoli Tynnu Dŵr, Rhagfyr 2013'***

Diolch ichi am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru ar ymgynghoriad ar y cyd Llywodraeth Cymru / Defra ar ddiwygio'r System Rheoli Tynnu Dŵr.

Fel Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym yn gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau i helpu i roi polisiâu a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith. Rydym yn arddel dull ecosystemol o hyrwyddo datblygu cynaliadwy sy'n dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Ar gyfartaledd mae mwy na 12 biliwn litr o ddŵr yn cael ei dynnu o'n hafonydd a ffynonellau dŵr daear yng Nghymru bob dydd. Un o ddyletswyddau Cyfoeth Naturiol Cymru yw 'gwarchod, ailddosbarthu a chynyddu adnoddau dŵr mewn ffyrdd eraill, a gofalu eu bod yn cael eu defnyddio'n gywir'. Y system drwyddedu tynnu dŵr yw'r prif ddull a ddefnyddiwn i roi'r ddyletswydd hwn ar waith.

Mae Cymru yn cael ei chydabod fel ffynhonnell gyfoethog o ddŵr, ac o'r herwydd nid yw faint o ddŵr sydd ar gael ar gyfer tyniadau newydd yn cael ei ystyried yn broblem fel arfer. Ond mewn rhannau helaeth o Gymru, nid oes mwy o gyflenwadau dibynadwy o ddŵr ar gael ar gyfer tyniadau newydd. Mae argaeledd dŵr yn debygol o ddod yn fwy o bryder yn y dyfodol os bydd effeithiau newid hinsawdd yn ymsefydlu, fel y rhagwelir ar hyn o bryd. Bydd hyn, yn anochel, yn effeithio ar dwf hir dymor yn yr ardaloedd hynny.

O ystyried yr uchod, rydym yn credu bod angen diwygio'r system drwyddedu tynnu dŵr gyfredol oherwydd:

- **Ei diffyg hyblygrwydd.** Nid yw'r system yn caniatáu inni ymateb i bwysau newidiol a gysylltir â'r galw cynyddol gan boblogaeth sy'n tyfu ac oblygiadau ansicr newid hinsawdd, a pharhau i amddiffyn yr amgylchedd ar yr un pryd.
- **Nid yw'n trin tynwyr yn deg.** Mae gan y rhan fwyaf o dynwyr yng Nghymru drwyddedau hanesyddol a roddwyd cyn 2001 nad ydynt yn gysylltiedig ag argaeledd dŵr ac nid ydynt yn cynnwys rheolau amgylcheddol digonol, os o gwbl. Yn ogystal nid yw'n bosibl eu hadolygu. I'r gwrthwyneb, mae cyfyngiadau ac amodau mwyfwy caeth yn gysylltiedig â thrwyddedau a roddwyd ar ôl 2001, er mwyn sicrhau bod yr

amgylchedd yn cael ei ddiogelu'n ddigonol ac o'r herwydd mae diffyg tegwch yn y system.

- **Nid yw'n dosbarthu dŵr yn effeithlon.** Nid yw'r system yn caniatáu inni wneud y defnydd gorau o'r adnodd gwerthfawr hwn. Er enghraifft, mae gan lawer o dynwyr fwy o ddŵr nag sydd ei angen arnynt, ond ni allwn ailddosbarthu'r dŵr na chafodd ei ddefnyddio i'r rhai sydd ei angen ar gyfer twf gan ei fod wedi ei ddyrannu eisoes dan drwyddedau tynnu.

Drwy fynd i'r afael â'r materion a amlinellir uchod, byddai system newydd ar gyfer rheoli tynnu dŵr yn cyfrannu at agenda cyfredol Llywodraeth Cymru, fel y'i amlinellwyd yn y Rhaglen Llywodraeth, ac yn yr ymgynghoriad diweddar ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd 'Tuag at Reoli Adnoddau Naturiol Cymru yn Gynaliadwy'. Credwn y bydd system ddiwygiedig, yn arbennig, yn:

- ein helpu i reoli adnoddau dŵr yn well ar lefel dalgylch afon, yn unol â'r dull 'seiliedig ar ardal' a thrwy hynny sicrhau bod ein hamgylchedd dŵr a'n hadnoddau naturiol yn cael eu cynnal yn gynaliadwy, eu gwella yn gynaliadwy a'u defnyddio'n gynaliadwy a
- cefnogi ein hymgyrch dros effeithlonrwydd adnoddau, gan fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddarperir gan adnoddau naturiol Cymru.

Wrth ystyried pa gynigion y dylem eu datblygu ar gyfer diwygio, bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru a Defra gynnal eu perthynas weithio agos. Petai gwahaniaethau barn yn codi ynghylch dulliau gweithredu, mae'n bwysig nad yw'r rhain yn effeithio ar ein gallu ni nac ar allu Asiantaeth yr Amgylchedd, i reoli'r dalgylchoedd afonydd trawsffiniol arwyddocaol, sef Afon Dyfrdwy, Afon Gwy ac Afon Hafren.

Hefyd, wrth i derfynau unrhyw ddiwygiad yng Nghymru ddod yn fwy eglur, bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru barhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod oblygiadau costau ac adnoddau sy'n gysylltiedig â system newydd yn cael eu deall yn llawn ac y gellir cyflawni a gweithredu'r system ei hun yn effeithlon, gan amharu cyn lleied ag sydd bosibl ar ein tynwyr.


Gan ein bod yn gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, Defra ac Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddatblygu'r sail tystiolaeth sy'n cefnogi'r cynigion diwygio cyfredol, nid ydym wedi ymateb i'r cwestiynau unigol a geir yn yr ymgynghoriad. Er hynny, fodd bynnag, rydym wedi gwneud sylwadau ychwanegol i gefnogi'r angen am ddiwygio yn Atodiad 1 yr ymateb hwn.

anthony.wilkes@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae croeso ichi gysylltu â'r aelod o staff isod yn Cyfoeth Naturiol Cymru os hoffech drafod ein safbwyntiau ar y mater hwn yn fwy manwl:

anthony.wilkes@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yn gywir,



Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio /
Executive Director for Knowledge, Strategy & Planning

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

Ffôn/Tel: (029) 2046 6045

Ffôn symudol / Mobile: 07818 008865

E-bost/E-mail: ceri.davies@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk /
ceri.davies@naturalresourceswales.gov.uk

Ein diben yw sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol.

Our purpose is to ensure that the natural resources of Wales are sustainably maintained, enhanced and used, now and in the future.

Atodiad 1

Mae'n ofynnol i'r rhan fwyaf o dynwyr sy'n tynnu mwy na 20 metr ciwbig o ddŵr y dydd gael trwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud hynny. Fodd bynnag, cynlluniwyd y system gyfredol ar gyfer rheoli tynnu dŵr o afonydd a dyfrhaenau fwy na 50 mlynedd yn ôl. Nid oedd ymwybyddiaeth ar y pryd ynglŷn â diogelu'r amgylchedd, dulliau ecosystemol, a'r galw cynyddol am ddŵr ac oblygiadau newid hinsawdd, ac o'r herwydd ni roddwyd ystyriaeth iddynt.

1. Rheoli Adnoddau Dŵr yn well ar lefel Dalgylch Afon

Mae gwelliannau i'r system gyfredol wedi eu cyflwyno dros amser, er enghraifft drwy Ddeddf Dŵr 2003. Mae'r rhan fwyaf o'r newidiadau, fodd bynnag, megis cyflwyno trwyddedau am amser cyfyngedig, yn effeithio ar oddeutu ugain y cant yn unig o'r 1,100 o drwyddedau cyfredol yng Nghymru. Golyga hyn fod y rhan fwyaf o dynwyr yng Nghymru yn dal i fod â thrwyddedau hanesyddol nad ydynt yn gysylltiedig ag argaeledd dŵr, ac nad oes ganddynt reolau amgylcheddol digonol, os o gwbl. Gall y tynwyr hynny felly barhau i dynnu dŵr pan yw llif dŵr yn isel er y gallai hynny effeithio ar yr amgylchedd (ac o'r herwydd ei allu i ddarparu nifer o wasanaethau ecosystemol) neu yn wir ar dynwyr eraill.

Rhoddir y trwyddedau hanesyddol hyn am byth, heb eu hadolygu, ac fel arfer telir iawndal pan fydd angen gwneud newidiadau i drwyddedau. Mae hon yn broses ddrud sy'n cymryd llawer o amser sy'n arafu'r gwaith o ddatrys problemau tyniadau anghynaliadwy, a hefyd sy'n llesteirio ein gallu i reoli adnoddau dŵr yn effeithlon ar lefel dalgylch.

Mae rheoli'r adnoddau dŵr sydd gennym yn debygol o fod yn fwy o her yn y dyfodol o ystyried yr hinsawdd sy'n amrywio fwyfwy, y galw cynyddol am ddŵr gan boblogaeth sy'n tyfu, a'r angen i barhau i amddiffyn ein hamgylchedd. Byddai'r gallu i adolygu pob trwydded o fewn dalgylch yn rhoi mwy o hyblygrwydd inni gyda golwg ar sut yr ydym yn rheoli ein hadnoddau dŵr yn y dyfodol. Yn hytrach na sefyllfa sy'n golygu mai canran bychan o dynwyr â thrwyddedau am amser cyfyngedig sy'n dioddef fwyaf yn dilyn unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y dyfodol, gallwn gyflawni ein canlyniadau drwy wneud newidiadau cymesur i'r holl drwyddedau mewn ffordd deg.

Mae'r system gyfredol i reoli tynnu dŵr hefyd yn anarferol o gymharu â systemau rheoleiddio eraill, gan fod y rhai sy'n achosi, neu sy'n debygol o achosi difrod, yn cael derbyn iawndal pan fo angen newidiadau. Mae hyn yn groes i egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'. Hefyd, codir arian yr iawndal drwy godi tâl ar yr holl dynwyr, a elwir yn Dâl Unedol Gwella'r Amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys y tynwyr a chanddynt amodau amgylcheddol modern yn eu trwyddedau neu rai sydd wedi buddsoddi mewn mesurau effeithiolrwydd. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn.

Yr ateb angenrheidiol:

- a. Cael gwared o drwyddedau am amser cyfyngedig a gofalu ei bod yn bosibl adolygu pob trwydded waeth pryd y cafodd ei rhoi (cyn neu ar ôl 2001)
- b. Datblygu, gyda thynwyr, set o reolau ar gyfer pob dalgylch, a fyddai:
 - i. yn cynnwys trothwyon amgylcheddol, a fyddai, pe croesid hwy, yn arwain at adolygu'r dalgylch
 - ii. yn rhoi cyfnod o rybudd penodol i dynwyr ar gyfer gwneud newidiadau angenrheidiol
- c. Cael gwared o'r angen am iawndal ar gyfer unrhyw newidiadau angenrheidiol i drwydded, os rhoddir unrhyw gyfnod o rybudd angenrheidiol.
- d. Cyflwyno lleiafswm rheolaeth yn unol â gofynion rheoliadau a fyddai'n atal pob tynnwyr rhag effeithio ar yr amgylchedd, neu ar dynwyr eraill, pan fydd llif dŵr yn isel.

2. Gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau dŵr

Ar gyfartaledd 45% yn unig o'r cyfaint dŵr blynyddol a drwyddedir ar gyfer ei dynnu oedd yn cael ei dynnu mewn gwirionedd rhwng 2002 a 2011. Nid yw llawer o dynwyr yn tynnu'r holl ddŵr a ddyrannwyd iddynt.

Fel y dywedir uchod, fel arfer telir iawndal pan fo angen gwneud newidiadau i drwyddedau hanesyddol. Golyga hyn nad ydym yn gallu adfer ac ailddosrannu'r cyfeintiau mawr o ddŵr trwyddedig sydd heb eu defnyddio o dan y trwyddedau hyn nac ychwaith yn gallu gwneud newidiadau i warchod yr amgylchedd mewn ffordd amserol. Wrth benderfynu ar argaeledd dŵr mewn dalgylch mae'n rhaid inni ystyried cyfeintiau cwbl drwyddedig. Mewn dalgylchoedd sydd eisoes yn gwbl drwyddedig, hyd yn oed os nad yw'r holl ddŵr yn cael ei ddefnyddio, ni ellir rhoi mwy o drwyddedau i dynwyr newydd neu i rai cyfredol sydd angen dŵr. O ganlyniad nid ydym yn gwneud y mwyaf o'r adnodd sydd ar gael. Mae hyn o bosibl yn rhwystr i fusnesau newydd sy'n awyddus i leoli yng Nghymru, oherwydd ymddengys nad oes dŵr ar gael i'w dynnu.

Yn ogystal, ar hyn o bryd pan yw dalgylchoedd wedi eu gordrwyddedu ond nad oes dŵr yn cael ei ordynnu, ceir perygl petai dŵr na chafodd ei ddefnyddio yn cael ei dynnu yn y dyfodol, y gallai hynny arwain at ddirywiad amgylcheddol sylweddol, a diffyg cydymffurfio posibl ag amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Byddai angen inni ystyried hyn wrth ddyrannu'r dŵr hwn na chafodd ei ddefnyddio ar gyfer tyniadau newydd.

Yr ateb angenrheidiol

Cael y gallu i dynnu cyfeintiau trwyddedig o ddŵr ond na chawsant eu defnyddio, o drwyddedau cyfredol mewn ffordd amserol, heb yr angen i ddilyn proses gymhleth a drud.

3. Gwerthfawrogi eich dŵr yn briodol ac felly ei ddefnyddio'n effeithlon

Rydym yn rhoi cefnogaeth lawn i'r nod o annog defnydd mwy effeithlon o ddŵr ond nid ydym yn argyhoeddedig mai ymestyn y defnydd o'r tariff dwyran yng Nghymru fydd yn cyflawni'r canlyniad angenrheidiol. Mae cost tynnu dŵr yn rhad iawn. Er enghraifft, yng Nghymru mae'n costio 1.5c i dynnu 1000 litr o ddŵr. Nid ydym yn credu y bydd defnyddio'r tariff dwyran ar gyfer bob tyniad yn ddigon o symbyliad i dynwyr leihau eu defnydd yn sylweddol. Yn ogystal, nid yw cost dŵr yn cymell tynwyr i ildio'r cyfeintiau o ddŵr trwyddedig ond sydd heb eu defnyddio ac a ddyrennir yn eu trwyddedau.

Mae'r unig ddefnydd cyfredol o dariff dwyran yn digwydd ar gyfer dyfrhau drwy chwistrellu, ac yma mae'r tariff yn seiliedig ar raniad 50-50 o gost cyfaint y dŵr sy'n cael ei awdurdodi a chyfaint y dŵr sy'n cael ei dynnu mewn gwirionedd. Roedd hwn yn benderfyniad a wnaed ym 1963 yn seiliedig ar bryderon ffermwyr y byddent yn dal i orfod talu am eu trwydded yn ystod hafau gwlyb. Mae'r system wedi bod mewn grym bellach ers 50 mlynedd ond prin yw'r dystiolaeth fod y dull hwn wedi annog ymarferion dyfrhau drwy chwistrellu mwy effeithlon.

Edrychwn ymlaen am gael parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Defra, Asiantaeth yr Amgylchedd ac eraill i archwilio beth yw'r ffordd orau o symbylu defnydd mwy effeithlon o ddŵr.

Mawrth 2014